

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

2021-22

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal, i rannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf ac i amlinellu bwriad y panel ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am niferoedd a phatrymau ym maes plant mewn gofal.

Ychydig yn wahanol i adroddiad y llynedd bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith sydd wedi ei wneud wrth i ni fynd drwy gyfnod adfer yn dilyn pandemig Covid-19

# 2. Be mae'r Panel yn ei wneud i mi?

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifri, ac yn ymrwymedig i sicrhau fod y plant a phobl ifanc yn ei ofal yn cael y cyfleoedd gorau posib mewn bywyd, a'u bod yn derbyn gofal priodol, yn cael addysg o safon, yn byw mewn llety sefydlog, ac yn cael gofal iechyd da.

2.2 Mae plant a phobl ifanc yn dod i ofal y Cyngor o dan amgylchiadau anodd iawn, ond mae'r Cyngor yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gan unrhyw blentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol a fyddai'n ei ddisgwyl gan riant da.

2.3 Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn:

- Adnabod ei blant, eu hanghenion, eu talentau a'u breuddwydion, ac yn hyrwyddo eu buddiannau
- Dal uchelgais uchel am eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer
- Cymryd diddordeb yn eu llwyddiannau a'u problemau a dangos balchder yn eu llwyddiannau a dathlu gyda nhw
- Gwrando ar eu barn a sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar ymarfer, datblygiadau gwasanaethau a pholisïau
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau ac yn ymgynghori a hwy ynglŷn â'u dewisiadau
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol i orau eu gallu gan sicrhau mynediad at addysg o safon uchel a chyfleoedd dysgu eang

- Cefnogi eu gwydnwch iechyd a lles emosiynol
- Darparu cartref diogel a sefydlog lle bo ymdeimlad o berthyn a gwerthfawrogiad yn bodoli
- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a hyrwyddo eu potensial economaidd a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol sydd yn cyfrannu i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

2.4 Yn bwysicaf oll, fel Rhiant Corfforaethol bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn meddwl, cynllunio, gweithredu a gwneud penderfyniadau er pennaf les y plant yn ei ofal.

2.5 Er mwyn cynnal y swyddogaeth hon, mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy'n cynnwys Aelod Cabinet yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol, rhiant maeth, ac aelod wedi ei dewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Addysg. Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo ei gyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd.

2.6 Mae gan y Panel Rhiant Corfforaethol gyfrifoldeb penodol ac uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaethol priodol ac addas ar gael i blant mewn gofal, a bod y gwasanaethau a gynigir iddynt o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cwrdd â'u hanghenion, gan gydweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd mewn gofal.

2.7 Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am sefydlu grwpiau tasg a gorffen i ganolbwyntio ar feysydd penodol er mwyn edrych yn fanwl ar ansawdd gwasanaethau, llwyddiannau a rhwystrau yn ogystal â chanfod profiadau uniongyrchol plant, pobl ifanc a gofalwyr er mwyn gwella profiadau plant mewn gofal yng Ngwynedd. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu ar ei ran.

# 3. Beth am Covid-19?

3.1 Yn sgil dyfodiad pandemig Covid-19 yn ôl ym mis Mawrth 2020, bu'n rhaid addasu y ffordd o weithio er mwyn parhau i gynnal gwasanaethau hanfodol i blant y Sir. Rhoddwyd nifer o gamau mewn lle i sicrhau cefnogaeth i blant mewn gofal drwy gydol y cyfnod y pandemig a amlygwyd yn Adroddiad Blynyddol 2019-21.

3.2 Yn ystod 2021-22 cymerwyd yr amser i adfer yn dilyn y pandemig, ac er fod rhai ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig wedi parhau gyda nifer o gyfarfodydd y

parhau i gyfarfod yn rhithiol, dechreuwyd ar y gwaith o ddod yn ôl i'r 'normal' newydd. Er hyn bu i'r adran sicrhau eu bod yn gweithio o fewn canllawiau cenedlaethol a lleol i sicrhau diogelwch eu staff a plant mewn gofal.


# 4. Sut mae'r sefyllfa ar hyn o bryd?

4.1 Cyflwynir yr wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter pedwar 2022, gan gynnwys ffigyrau cymharol o'r chwe blynedd flaenorol:


| **Plant mewn gofal ar 31 Mawrth** | **2021/22** | **2020/21** | **2019/20** | **2018/19** | **2017/18** | **2016/17** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 273 | 281 | 291 | 253 | 227 | 218 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 46 | 46 | 82 | 66 | 49 | 60 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 54 | 56 | 44 | 40 | 40 | 49 |
| Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn | 2 | 6 | 6 | 5 | 9 | 5 |

4.2 Mae'r data yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer y plant mewn gofal yn ystod y flwyddyn. Tra bod 46 plentyn wedi dod i ofal am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, mae 54 o blant wedi mynd allan o ofal.

4.3 Yn y siart isod, gellir gweld ystod oed y plant mewn gofal:




4.4 O gyfanswm y plant mewn gofal, mae 179 (66%) mewn lleoliadau maeth, 20 (7%) mewn lleoliadau preswyl a 63 (23%) wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Roedd 3 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y flwyddyn gyda 8 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




4.5 Lleoliadau Daearyddol

4.5.1 Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 86 (32%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli y tu allan i Wynedd. Roedd 36% o'r rhain ym Môn a Chonwy, gyda 62% o blant y tu allan i

Wynedd wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae 25 o blant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, gyda 8 o'r rhain mewn lleoliadau preswyl a'r gweddill naill ai wedi eu lleoli gyda rhieni neu berthnasau.

4.5.2 Mae amrywiaeth o resymau yn arwain at y gofyn am leoliadau preswyl, ac ymhob achos mae anghenion y plant a'r bobl ifanc yma yn gymhleth ac yn ddwys e.e. materion iechyd meddwl a hunan anafu, ecsploetiaeth rywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol. Nid yw lleoli o fewn y Sir felly'n opsiwn mewn achosion o'r fath.

4.5.3 Yr her fwyaf sydd yn ein hwynebu fel Cyngor yw dod o hyd i leoliadau preswyl addas ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Nid yw hyn yn unigryw i Wynedd ac mae'n derbyn sylw yn genedlaethol drwy ymchwiliadau gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

4.5.4 I rhai plant mae dewis i'r Cyngor rhwng lleoli gyda gofalwyr maeth cyffredinol o fewn y Sir neu gyda theulu estynedig. Gall y teulu estynedig fod yn byw tu allan i ffiniau'r Sir. Y canlyniad i'r plentyn felly yw cael ei leoli'n all sirol, ond bod y lleoliad yn parhau o fewn ei deulu estynedig. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19 plentyn yn y math yma o drefniant.

4.5.5 Mae gweddill y lleoliadau tu allan i'r Sir yn leoliadau maeth gyda Gofalwyr Gwynedd ( sydd fel arfer wedi symud i fyw tu allan i Wynedd), neu'n leoliadau gydag asiantaethau maethu preifat. Mae mwyafrif llethol y gofalwyr maeth sydd wedi eu cofrestru gydag asiantaethau preifat yn byw y tu allan i Wynedd.

4.6 Plant Ifanc Iawn yn Dod i Ofal

4.6.1 Mae'r data diweddaraf yn dangos parhad yn y nifer o blant o dan 5 oed sy'n dod i ofal. Hyd at ddiwedd chwarter 4 2022 mae 33% o leoliadau newydd plant mewn gofal ar gyfer plant o dan 5 oed.

4.6.2 Dros 4 blynedd mae plant o dan 5 oed yn cynrychioli 47% o'r holl leoliadau newydd. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau, ond yn benodol, plant ifanc yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; trais yn y cartref; camddefnyddio sylweddau ac alcohol; bwydo plant ifanc yn fwriadol gyda chyffuriau a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

4.7 Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (Unaccompanied Asylum Seeking Children)

Yn ystod Tachwedd 2021 fe dderbyniodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr gyfarwyddyd gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â lleoli Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Nid oedd Awdurdodau Lleol yn Ne Ddwyrain Lloegr yn medru parhau i ymdopi gyda'r niferoedd oedd yn cyrraedd,

ac yn sgil hynny mae pob awdurdod lleol bellach wedi derbyn dyraniad. Mi fydd y carfan yma o bobl ifanc felly'n ychwanegiad at y nifer plant mewn gofal y Cyngor.

4.8 Rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022 derbyniwyd 3 Ceisiwr Lloches. Ychydig iawn o wybodaeth gefndirol sydd ar gael yn yr achosion hyn a mae darganfod lleoliadau addas yn heriol o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml iawn y trawma maent wedi ei brofi. Dyraniad gwreiddiol Cyngor Gwynedd oedd 6 o bobl ifanc o dan ffrwd cyntaf y cynllun, felly disgwylir 3 arall i'n cyrraedd yn gynnar yn ystod 2022-23.

4.9 Mae'r 3 sydd wedi eu derbyn gan Wynedd dros 16 oed, gydag un wedi ei leoli mewn lleoliad maeth yng Ngwynedd a 2 wedi eu lleoli tu allan i Wynedd. Mae pob un ohonynt yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor tra bod y Swyddfa Gartref yn rhoi ystyriaeth i'w achosion unigol. Mae proses penodol i'w ddilyn ac angen eiriolwr arbenigol arnynt. Bydd eu Gweithwyr Cymdeithasol yn cynllunio ac yn adolygu eu gofal ac yn gweithredu fel canolwr i hwyluso eu cais am lloches barhaol. Mae creu a chadw cysylltiad gyda'r Cyngor Ffoaduriaid ac eraill yn hanfodol wrth wneud hyn.

4.10 Y Tîm Trothwy Gofal

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 gweithiodd y Tîm Trothwy Gofal gyda 160 o blant (91 teulu). Dechreuodd y tîm weithio gyda 75 o achosion newydd yn ystod y cyfnod.

4.11 Yn ystod y flwyddyn, daeth ymyrraeth y tîm i ben gyda 86 o blant (45 teulu). Roedd 63 o'r rhain yn byw adref gyda'u rhieni heb orchymyn gofal ar gychwyn yr ymyrraeth. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd 53 yn parhau i fyw adref (84%).

4.12 Yn ogystal, daeth ymyrraeth i ben mewn 12 achos ble roedd y plant mewn gofal maeth ar gychwyn y gwaith. Roedd 7 o'r plant hyn wedi dychwelyd i fyw gyda rhieni ar ddiwedd ymyrraeth y tîm (58%).

4.13 Yn ychwanegol i ymyrraeth trothwy gofal, mae gan y gwasanaeth 2 Weithiwr Cymdeithasol sy'n canolbwyntio'n benodol ar asesu p'un a yw plentyn angen parhau i fod yn blentyn mewn gofal. Os yn ddiogel i wneud hynny, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn cyflwyno adroddiad gyda cais i ddiddymu'r gorchymyn gofal yn y llys. Yn ystod y flwyddyn aeth 23 o blant allan o ofal yr awdurdod o ganlyniad i'r gwaith hwn. Mae gwaith ar y gweill mewn 26 achos arall i ddiddymu'r gorchymyn ar ddiwedd y cyfnod. Yn ystod 2021-22 bu i 54 o blant fynd allan o ofal, sy'n golygu bod cyfanswm y plant aeth allan o ofal yn ystod y flwyddyn yn fwy na'r nifer o blant a ddaeth i ofal. Mae'r gwaith hwn yn greiddiol felly wrth i'r Cyngor fynd i'r afael ag amcan Llywodraeth Cymru i leihau'r nifer o blant mewn gofal.

# 5. Dwi isio mynediad addas i wasanaethau iechyd

5.1 Mae'r cysylltiadau parhaus rhwng iechyd, yr awdurdod lleol a gwasanaethau eraill wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae cyfarfodydd rhithiol dros Teams wedi bod yn llwyfan cadarn ar gyfer trafodaeth ac wedi golygu bod cyfarfodydd dilynol yn cael eu trefnu yn gynt i gynnwys rhan-ddeiliaid perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys y Cyfarfodydd Partneriaeth Diogelu gydag Iechyd a'r Awdurdod Lleol er mwyn adnabod materion sy'n peri pryder ac unrhyw risgiau yn gynnar a chynllunio ar eu cyfer.

5.2 Yn ystod y flwyddyn, roedd asesiadau iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal cychwynnol yn cael eu cwblhau gan y Pediatryddion gydag apwyntiad clinig wyneb yn wyneb ar gyfer yr holl asesiadau lle nad oedd unrhyw risg clinigol. Hefyd, roedd archwiliadau meddygol mabwysiadu yn cael eu cwblhau wyneb yn wyneb ac roedd Pediatryddion yn cyfarfod â'r darpar fabwysiadwyr ar gyfer crynodebau iechyd. Roedd asesiadau adolygu iechyd yn cael eu cwblhau gan y Nyrs LAC / Nyrs Ysgol neu'r Ymwelydd Iechyd o fewn yr amserlen lle bynnag y bo hynny'n bosib. Roedd 334 o asesiadau iechyd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda 57% wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol.

5.3 Mae'r cysylltiadau rhwng CAMHS wedi'u cynnal a'u gwella gyda chyfarfodydd misol i wella safonau a gweithio ar y Siart Llif LAC / CAMHS i wella'r mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd yr argymhellion o'r cyfarfod hwn yn tynnu sylw at waelodlin ar gyfer llesiant iechyd meddwl ar gyfer y plant sy'n dod i ofal; I wneud hyn drwy adroddiad gofalwyr sydd i'w ddefnyddio i gyfeirio at ymyrraeth gynnar fel bo'r angen, fydd yn rhan o'r trafodaethau nesaf gyda'r awdurdod lleol â'r timau IRO.

5.4 Mae'r swydd Nyrs LAC sydd wedi'i hariannu drwy Gronfa Gofal Intrergredig ar gyfer y tîm Trothwy Gofal / 16+ wedi tynnu sylw at anghenion a bylchau penodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac sydd angen cefnogaeth, yn enwedig wrth drosglwyddo i wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Mae'r swydd hon wedi bod yn effeithiol o ran darparu cefnogaeth wedi'i thargedu a gwaith ataliol ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

5.5 Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm iechyd LAC wedi mynychu hyfforddiant Therapi Ymddygiad Dilechdidol a Therapi Briff Canolbwyntio ar Ddatrysiadau, mewn perthynas â rhiantu plant sydd wedi dioddef trawma datblygiadol, i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Weithwyr Cymdeithasol. Hefyd, mynychwyd sesiynau

ymwybyddiaeth gydag EMRALLT i godi ymwybyddiaeth a chynorthwyo i weithio â phlant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd hyfforddi cyson rhwng timau nyrsio a'r awdurdod lleol.

5.6 Dechreuwyd ar gynllun peilot Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymwneud â chronfa ddata ar-lein WCCIS ym mis Ionawr 2022. Mae hyn yn barhaus ac fe ddylai helpu â chysylltiadau technoleg gwybodaeth a recordio digidol a rennir ynghyd â gwella cyfathrebu a chydweithio â'r awdurdod lleol, sy'n hanfodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd.

5.7 Mae Fframwaith Asesu Iechyd LAC Cymru Gyfan hefyd wedi cael ei lansio. Bydd hyn yn darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol iechyd ar gwblhau asesiadau iechyd LAC i sicrhau unffurfiaeth ac ansawdd.


5.8 Mae anawsterau parhaus â'r atgyfeiriadau niwro-ddatblygol yn sgil rhestr aros o 2 flynedd; fodd bynnag, mae'r llwyth achosion Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei flaenoriaethu.

5.9 Bu i'r rhaglen frechu Covid ar gyfer plant LAC 12-15 oed hefyd ddechrau gyda materion cydsyniad yn cael eu datrys cyn i'r apwyntiadau gael eu hanfon allan.

# 6. Dwi isio lle da i fyw

6.1 Mae gofal maeth o'r ansawdd gorau yn adnodd annatod ar gyfer gallu sicrhau bod ymrwymiadau'r Cyngor i blant mewn gofal yn cael eu diwallu. Mae'r Cyngor yn ymfalchïo yn ei allu i gynnig gofal maeth o'r safon uchaf ac mae'n buddsoddi'n helaeth i recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth lleol ar gyfer plant Gwynedd. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol bod gwasanaeth maethu prif ffrwd yn parhau i adrodd am colled net yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd sydd wedi eu cymeradwyo. Her allweddol i holl Wasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol Cymru yw gwella nifer yr ymholiadau a chymeradwyaeth gofalwyr maeth newydd.

6.2 Mae'r gwaith a wneir o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn allweddol i ganolbwyntio ar sicrhau nifer digonol o ofalwyr maeth gyda digon o gymorth a sgiliau i fodloni'r galw cynyddol am leoliadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion gynyddol cymhleth. Mae hyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i fodloni'r galw hwn.



6.3 Yn ystod y flwyddyn gwelwyd garreg filltir arwyddocaol iawn gyda lansiad Maethu Cymru. Bellach mae holl wasanaethau maethu Awdurdodau Lleol Cymru yn ran o Maethu Cymru. Mae gwasanaeth pob awdurdod lleol yn cadw ei hunaniaeth ei hun a bellach fe adnabyddir gwasanaeth maethu Gwynedd bellach fel Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd.

6.4 Mae trefniadau llywodraethu newydd bellach yn eu lle a sefydlwyd Cydbwyllgor Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru. Bu i Cabinet y Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r trefniadau llywodraethu ym mis Mawrth 2022 a bydd yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd yn cynrychioli'r Awdurdod ar y Cyd Bwyllgor.

6.5 Mae darpariaeth uniongyrchol y gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor, ond mae marchnata a chydweithio i ddenu gofalwyr maeth newydd yn destun cydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn penodwyd Rheolwr Marchnata Cenedlaethol i arwain ar y gwaith hwn.

6.6 Yn ogystal fe benodwyd Swyddog Marchnata Rhanbarthol yn Ionawr 2022, wedi ei gyflogi gan Wynedd sydd yn gyfrifol am feithrin marchnata ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol, gan gynnwys datblygu strategaeth recriwtio a marchnata, gweithredu ymgyrchoedd recriwtio lleol a rhanbarthol, datblygu cynnwys ar gyfer y gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol ac chyd-gordio'r blaenoriaethau recriwtio a marchnata cenedlaethol.

6.7 Mae Dadansoddiad Anghenion Rhanbarthol wedi'i gynnal a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio Strategaeth Recriwtio a Chadw rhanbarthol a lleol ar gyfer 2022-25. Mae'r gwaith o gasglu data ar gyfer y dasg hon wedi ei gwblhau a mae'r strategaeth wedi'i gwblhau yn ystod mis Ebrill 2022.




6.8 Yn lleol mae adeiladu ein darpariaeth faethu fewnol yn hanfodol er mwyn parhau i wella canlyniadau i blant. Golygai hyn symud y cydbwysedd gofal ac adnoddau ein timau Maethu i alluogi twf a'r gallu i ymateb i ofynion. Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 147 o blant wedi eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Gwynedd. O'r 46 plentyn a ddaeth mewn i ofal yn ystod 2021-22, mae 33 ohonynt wedi'u lleoli mewn gofal maeth.

6.9 Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 70 cartrefi maeth prif ffrwd wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd. Mae hyn yn ostyngiad o 1 mewn blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd nifer o ofalwyr maeth yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth. Er ein bod wedi cofrestru gofalwyr maeth newydd yn ystod y flwyddyn, ni lwyddwyd i gynyddu’r cyfanswm.

6.10 Mae cyfrifoldeb ar ofalwyr maeth i ofalu am y plant sydd yn eu gofal fel pe baent yn blant iddynt hwy gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau, yn eirioli ar eu rhan ac yn cydweithio yn dda gyda rhieni, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 3% o’r plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi profi 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad. Golyga hyn ar sail perfformiad cenedlaethol 2020-21, bod lleoliadau maeth Gwynedd yn cynnig lefel uchel iawn o sefydlogrwydd i blant mewn gofal.

6.11 Mae canran uchel o blant sydd yng ngofal y Cyngor yn cael eu lleoli gydag aelodau o’u teuluoedd eu hunain sydd yn cael eu cofrestru fel gofalwyr maeth oherwydd statws cyfreithiol y plant. Rydym yn ymrwymo’n llawn i gymryd cyfrifoldeb i ddarparu’r un gefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i’r teuluoedd yma ag i unrhyw leoliad maeth arall, gan fod yr her o ofalu am blentyn o’u teulu eu hunain yn un sydd yn cael ei gydnabod yn llawn.

# 7. Dwi isio llai o blant yn fy sefyllfa i

7.1 Ar ddechrau 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fydd lleihau niferoedd y plant mewn gofal, a gosodwyd gofyn ar awdurdodau lleol i osod targed rhifyddol i leihau niferoedd er mwyn medru mesur llwyddiant yn erbyn y targed hwnnw.

7.2 Penderfynodd Cyngor Gwynedd na fyddai’n gosod unrhyw darged rhifyddol na chanrannol mewn perthynas â niferoedd plant mewn gofal, gan fod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau fod pob plentyn yn cael eu diogelu rhag niwed.

7.3 Mae Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro’n chwarterol ar y strategaeth i gael plant allan o ofal. Mewn gwirionedd, bu cynnydd cyson yn genedlaethol yn niferoedd y plant sy’n dod i ofal. Mae’r Cyngor wedi bod yn ymwybodol iawn o’r cynnydd, a hefyd yn ymwybodol o’r pwysigrwydd i weithredu cynlluniau er mwyn lleihau'r niferoedd sy’n dod i ofal. Er hynny, mae’r Adran Plant yn hollol argyhoeddedig bod yr holl blant mewn gofal yng Ngwynedd angen bod mewn gofal oherwydd y ffactorau sydd wedi arwain at yr angen i’r Cyngor ymyrryd er mwyn eu diogelu.

Mae ystadegau eleni yn dangos gostyngiad o 2.9% yn y nifer o blant mewn gofal yn Gwynedd.


# 8. Pa gynlluniau sydd wedi datblygu eleni?

8.1 Mae gwaith wedi parhau i drawsnewid hen fanc Natwest Caernarfon yn fflatiau, fflat hyfforddi a gofod amlasiantaethol, gyda chyfleoedd cyflogaeth ar gael hefyd. Targedir unigolion y mae gennym ni gyfrifoldeb amdanynt fel rhiant corfforaethol, a bydd y prosiect hwn yn gyfle i bobl ifanc ennill sgiliau byw'n annibynnol gan y Cyngor a GISDA, ynghyd ag asiantaethau eraill.

8.2 Bellach mae teclyn sydd wedi ei greu ar y cyd â phobl ifanc ar gyfer byw yn annibynnol yn weithredol. Mae ein pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, ac maent wedi gallu cyfrannu at ddatblygiad y pecyn drwy gael y cyfle i roi eu mewnbwn i bob rhan o'r datblygiad.

8.3 Mae'r broses o adael gofal a symud i fywyd fel oedolyn yn gallu bod yn heriol a dryslyd. Mae ap 'Barod' wedi cael ei greu i adael i bobol ifanc wybod am y gefnogaeth sydd ar gael wrth adael gofal gan Tîm 16+. Mae angen sicrhau'r gorau i bob plentyn; mewn ac allan o ofal.

Rydyn ni'n ymwybodol fod hwn yn gyfnod unigryw a phwysig yn eu bywydau, a cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau fod y gefnogaeth ar gael. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt allu cyrraedd eu potensial, mae gosod llwybr esmwyth o'u blaenau yn hollbwysig. Wrth greu'r creu'r ap gyda chyngor y bobl ifanc ynghyd a rhai sy'n gweld a phrofi hyn o ddydd i dydd mae'n sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol ar yr ap.



8.4 Yn ystod mis Chwefror 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am lansio Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal trwy Gymru. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol iawn i'r bobl ifanc hynny, a fydd yn rhoi incwm cyn treth o £1600 y mis iddynt. Rydym yn cyd-weithio gyda'r Llywodraeth i baratoi ar gyfer lansiad y cynllun yn Gorffennaf 2022 a rhagwelir y bydd 21 o bobl ifanc cymwys ar gyfer y peilot yng Ngwynedd.

# 9. Dwi isio addysg dda

9.1 Mae camau breision wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth a pherchnogaeth y gyfundrefn addysg o'i swyddogaethau fel rhiant corfforaethol.

9.2 Mae cyswllt rhwng plant mewn gofal, ysgolion a'r adran addysg wedi cryfhau yn sgil y Cydlynydd Addysg Plant mewn Gofal gael ei leoli oddi mewn i'r adran am y tro cyntaf ers peth amser.

9.3 Yr ydym wedi llwyddo i drosi cynlluniau addysg personol plant mewn gofal sydd mewn ysgolion yng Ngwynedd i system ar lein. Mae hyn yn hwyluso'r broses o gynllunio ar gyfer plentyn mewn gofal ar lefel ysgol ac yn hwyluso mynediad rhieni maeth a gweithiwr proffesiynol i gynllun y plentyn. Gall y plentyn weld a chyfrannu at y cynllun pe dymunant ar unrhyw amser.

9.4 Gan fod y cynlluniau'n cael eu cynhyrchu'n ddigidol mae modd i ni bellach wirio ansawdd y cynlluniau, gan sicrhau fod y plant yn derbyn targedau addas yn brydlon.

9.5 Yn ystod y flwyddyn nesaf yr ydym yn awyddus i ddatblygu defnydd Gweithiwyr Cymdeithasol o'r system ar lein ac ymestyn defnydd y system i blant sydd wedi eu lleoli'n all sirol yn ogystal.

9.6 Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd trefn newydd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw blentyn mewn gofal yn cael ei wahardd yn barhaol heb ymyrraeth gan y gwasanaeth addysg a gwasanaethau plant.

9.7 Yr ydym wedi llwyddo mewn cais diweddar am grant i dreialu rôl Pennaeth Rhithiol ar gyfer plant mewn gofal yma yng Ngwynedd. Yr ydym o'r farn y byddai'r rôl ychwanegol yn cyd fynd a'r hyn sydd yma'n barod ac yn sicrhau ffocws penodol ar hybu buddiannau a deilliannau addysgol. Rhagwelir y byddwn yn penodi i'r swydd yn ystod tymor yr Haf gyda'r rôl yn weithredol ar gychwyn yn flwyddyn addysgol.

9.8 Yr ydym yn rhagweld y bydd y Pennaeth yn ymgymryd ag agweddau lle mae'r galw ar ddod i farn ar ansawdd darpariaeth a chynnydd y disgybl yn allweddol. Bydd y Pennaeth yn gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod y ddarpariaeth yn rhagorol a bod cynnydd y dysgwyr yn dda. Fe all hyn ddigwydd mewn sawl ffordd ond fe fydd mwyafrif gwaith y Pennaeth yn ymwneud a sicrhau fod yr ysgolion a'r sgiliau, adnoddau a chefnogaeth orau ar gyfer y dysgwr, nid gwneud y gwaith yn lle'r ysgol, ni fyddai hyn yn gynaliadwy.

9.9 Bydd y Pennaeth yn monitro cynlluniau unigol a chynnydd disgyblion a lle'n briodol cyfeirio'r ysgolion at wasanaethau arbenigol er mwyn eu grymuso. Gall rhain fod yn wasanaethau mewn meysydd megis anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiad neu wasanaethau neu gefnogaeth benodol gan wasanaethau plant a tu hwnt. Bydd y rôl hon yn plethu i weithrediad ystod o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau cyfiawnder, ieuenctid i enwi dim ond ychydig.

9.10 **Arian ychwanegol i gefnogi'r adran**

Mae'r grantiau bwrsari wedi eu darparu'n hwylus i'r rhai a fu i'r ysgolion wneud cais amdanynt, prin oedd yr enghreifftiau o ceisiadau nad oedd yn gymwys. Fel yr arfer gwelwyd ystod eang o geisiadau gan gynnwys set o ddrymiau a gwers drymio i adnoddau adolygu.

9.11 Mae'r grantiau clwstwr wedi eu rhannu drwy'r gwasanaeth rhanbarthol gyda phob clwstwr yn buddsoddi mewn hyfforddiant ac adnoddau i dargedu anghenion plant mewn gofal.

9.12 Rhagwelir y bydd y Pennaeth Rhithiol yn chwarae rôl weithredol mewn cyfarwyddo defnydd y clystyrau o'r grant hwn o fis Medi ymlaen.

9.13 **Canlyniadau PMG (CA4)**

Gyda'r arholiadau yn parhau i fod yn asesiadau athrawon dros y flwyddyn, nid oedd y canlyniadau diwedd cyfnod yn wahanol i'r hyn a ragfynegwyd, i bob unigolyn, â'r pobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd i ddewis llwybr dysgu/ profiad ôl 16 yn seiliedig ar eu canlyniadau.

9.14 Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd arholiadau'n dychwelyd i'r hen drefn ac fe fydd mwy o ffocws ar sicrhau cefnogaeth a sefydlogrwydd i ddysgwyr yn arwain at ac yn ystod cyfnodau arholi.

9.15 **Data Perfformiad a Llais y Plentyn**

Mae cynlluniau addysg personol yr awdurdod yn cael eu creu, monitro ac adolygu ar lwyfan digidol ddatblygwyd gan yr awdurdod. Fodd bynnag mae mynediad yr

awdurdod i ddata perfformiad disgyblion yn gyfyng wrth i Lywodraeth Cymru leihau gofynion adrodd ar ysgolion.

9.16 Mewn ymateb i hyn yr ydym wedi ymchwilio i ffyrdd gwahanol y gellid casglu data allweddol er mwyn poblogi pob cynllun addysg personol ac fe fyddwn yn parhau i ddatblygu'r dulliau yma dros y flwyddyn nesaf. Ein bwriad fydd cyd weithio a systemau parod ysgolion nid llunio gofyn ychwanegol arnynt.

9.17 Yr ydym yn ymwybodol o'r angen i gasglu barn y plentyn am safon ei addysg. Byddwn yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o gynnwys llais y plentyn a'i drin fel gwybodaeth feintiol.

# 10. Be fydd y Panel yn neud blwyddyn yma?

10.1 Gyda'r etholiadau Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal ym Mai 2022, gwelir hyn fel cyfle i ail sefydlu trefniadau'r Panel Rhiant Corfforaethol. Roedd yn gyfle i edrych ar gadeiryddiaeth ac aelodaeth y Panel a penderfynwyd y bydd y gadeiryddiaeth yn nwylo'r Prif Weithredwr y Cyngor.

10.2 Ymhellach i hyn mae cyfle wedi bod i ail edrych ar drefniadau mewnol y Panel, a bellach mae aelod o staff wedi ei bennu i wneud y gwaith o gyd-lynu gwaith y panel ac i gydgordio adroddiadau ar gyfer y panel.

10.3 Yn ystod misoedd cyntaf 2022/23 bydd gwaith yn cael ei wneud i ail edrych ar strategaeth y Panel. Bydd hyn rhoi cyfle i'r Cynghorwyr newydd fydd yn rhan o'r Panel gael y cyfle i amlygu eu blaenoriaethau dros y cyfnod sydd i ddod ac i sicrhau fod y plentyn yn ganolog i holl weithrediad y panel.

10.4 Yn sgil y strategaeth, bydd modd adnabod meysydd sydd angen gwaith pellach neu angen eu cryfhau. Bydd clywed a gwrando ar lais y plentyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Panel Rhiant Corfforaethol. Mae'r Panel wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd mewn gofal yng Ngwynedd. Drwy hyn, bydd modd adnabod unrhyw rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn unrhyw elfen o'u a gweithredu i gael gwared ar y rhwystrau hynny i orau ein gallu.

10.5 Fel arfer, mae hyfforddiant Rhiant Corfforaethol yn cael ei ddarparu i holl Aelodau Etholedig y Cyngor yn flynyddol. Yn anffodus iawn, ni fu hyfforddiant ar gael dros y

flwyddyn diwethaf ac mae'r Panel wedi gofyn i hyn gael ei flaenoriaethu ar fyrder. Gyda etholiad wedi ei gynnal ym mis Mai, mae trefniadau yn ei lle er mwyn cynnal sesiynau hyfforddiant ym mis Tachwedd.

# 11. I Orffen...

Mae llawer o waith da wedi ei wneud dros y flwyddyn diwethaf, a hynny drwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd gwaith pellach angen ei wneud dros y flwyddyn nesaf i sicrhau fod trefniadau addasedig y Panel wedi ei gwneud, ynghyd a datblygu'r strategaeth yn fuan yn ystod 2022/23. Yn ychwanegol ar hyn bydd angen parhau i sicrhau fod lleisiau plant mewn gofal yn cael eu clywed ac yn dylanwadu ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.